

PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 4 Hydref, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorwyr J.E. Charles, G.A. Cox a S.T. Wiliam.

419 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

420 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd) a Cynghorydd R. Crowley.

421 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

422 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd G.A. Cox fuddiant yn Eitem 6 ar yr Agenda 'Adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Buddsoddiadau 2021/22'. Natur y diddordeb oedd mai'r Cynghorydd oedd Clerc Ymddiriedolwyr Elusen Evan Jenkins a gynghorwyd gan Charles Stanley, a restrwyd yn yr adroddiad fel Darparwr Buddsoddiadau Amgen. Tynnodd y Cynghorydd yn ôl o'r cyfarfod cyn dechrau'r drafodaeth ynglŷn â'r Eitem hon ar yr Agenda.

423 CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL 2021/22 CYFRAN 2 (RG) –

Nododd yr adroddiad fod cyllideb o £45,000 wedi'i phennu ar gyfer cyhoeddi grantiau yn ystod 2021/22. Roedd swm cyllideb heb ei glustnodi o £5,196 a ddygwyd ymlaen o 2020/21 hefyd ar gael i'w glustnodi yn ystod 2021/22. £9,750.00 oedd swm y

grantiau a glustnodwyd yng Nghyfran 1, a £30k oedd swm y grantiau a argymhellwyd ar gyfer Cyfran 2 yn Atodiad A yr adroddiad.

Derbyniwyd cais ar ôl y dyddiad cau a oedd, ar gais y Prif Gyfrifydd a chyda chaniatâd y Cadeirydd, wedi'i ddsbarthu i'r Aelodau i'w hystyried cyn y cyfarfod. Cadarnhaodd yr Aelodau eu bod yn hapus i dderbyn y cais hwyr a'i ystyried ynghyd â'r ceisiadau a nodir yn Atodiad A. Y grant a argymhellir ar gyfer y cais hwyr oedd £2,354, gan ddod â chyfanswm y grantiau a argymhellwyd i £32,354.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Prif Gyfrifydd, pe bai'r swm a argymhellwyd yn cael ei roi, y byddai tua £2,800 dros ben am weddill y flwyddyn ariannol, ac er y byddai'n bosibl tynnu arian wrth gefn i lawr i ariannu ceisiadau dilynol pe bai'r Aelodau'n dymuno gwneud hynny, yn y gorffennol roedd yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi'r gorau i dderbyn ceisiadau pellach am y flwyddyn ariannol berthnasol pe na bai digon o arian.

Ar ôl ystyried y ceisiadau'n llawn,

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r ceisiadau am gymorth grant fel y'u nodir yn Atodiad A yr adroddiad ac yn y papurau atodol a ddsbarthwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn hyrwyddo amcanion yr Ymddiriedolaeth.

424 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2020/21 (RG) -

Gwnaeth y Prif Gyfrifydd gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2021.

Dywedodd y Swyddog mai £5.230m oedd gwerth y gronfa ar 31 Mawrth, 2021 cynnydd o £261k o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd gwarged o £8k yn ystod y flwyddyn hefyd, gyda diffyg o £6k ar gyfer yr un sefyllfa yn 2019/20.

Er y bu adferiad sylweddol ar werth buddsoddiadau, bu gostyngiad pellach yn yr incwm a gafwyd yn ystod y flwyddyn o £4k o'i gymharu â 2019/20, gan adael yr Ymddiriedolaeth £9k yn brin o'r targed incwm o £40k.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'i gynnwys yn llawn,

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020/21, fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad, ac awdurdodi'r Cadeirydd i'w lofnodi ar ran ymddiriedolwyr.

Rheswm dros y penderfyniad

Yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, a'r Rheoliadau Elusennau (Adroddiad a Chyfrifon) 2008.

425 ADOLYGIAD O'R STRATEGAETH RHEOLI BUDDSODDI 2021/22 (RG) -

Cyflwynodd y Prif Gyfrifydd yr adroddiad a ofynnodd i'r Aelodau ystyried y dull presennol o ymdrin â Buddsoddiadau Deddfau Eglwysi Cymru ac ystyried opsiynau ar gyfer adolygu a datblygu strategaeth yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd roedd gan yr Ymddiriedolaeth £1.981m (£1.857m ar 31 Mawrth, 2021) mewn Buddsoddiadau a oedd yn cael eu rheoli yn ôl disgrisiwn gan Tilney Investment Planning Ltd. Roedd hefyd gan yr Ymddiriedolaeth werth £3.231m o eiddo buddsoddi ar 31 Mawrth, 2021 a brisiwyd ddiwethaf yn 2018/19.

Rhoddodd yr adroddiad ddadansoddiad o berfformiad Tilney, gan atgoffa'r Aelodau am eu dulliau disgrisiynol a moesegol o fuddsoddi, ac amlinellu eu strwythur codi tâl. Dangosodd yr adroddiad hefyd incwm buddsoddiadau Deddfau Eglwysi Cymru Bro Morgannwg yn erbyn buddsoddiadau tri Chyngor arall.

I gloi, cynigiodd yr adolygiad strategaeth dri opsiwn i Ymddiriedolwyr eu hystyried:

1. Bod yr Ymddiriedolwyr yn parhau â'r dull buddsoddi presennol ac yn osgoi costau sy'n gysylltiedig â gwerthu a symud i lwyfan buddsoddi newydd. Bod yr Ymddiriedolwyr yn adolygu eu dull o ymdrin â risg i gynyddu enillion incwm posibl a hefyd yn ystyried lleihau swm y buddsoddiad a glustnodwyd ar sail foesegol.
2. Bod yr Ymddiriedolwyr yn mynd trwy broses adolygu buddsoddi ffurfiol ac yn gwahodd ceisiadau gan bob parti a nodwyd yn y ddogfen adolygu strategaeth.
3. Bod yr Ymddiriedolwyr yn symud oddi wrth y dull o reoli buddsoddiadau'n ôl disgrisiwn ac yn symud at ddull lle y buddsoddir Cronfa Deddfau Eglwysi Cymru drwy ddwy neu dair cronfa fuddsoddi gyffredin.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am yr adroddiad a dywedodd y byddai'n dewis y trydydd dull a oedd hefyd yn cael ei weithredu gan Ymddiriedolaethau dau Gyngor arall. Nododd y Cadeirydd mai'r dull cyntaf oedd yn cael ei weithredu ar hyn o bryd heb lawer o incwm yn cael ei gynhyrchu, ac y byddai'r ail ddull yn cymryd llawer o amser heb wneud fawr dim gynnydd wrth ystyried maint y gronfa dan sylw.

Gan fod yr Aelodau'n cytuno ag awgrym y Cadeirydd,

PENDERFYNWYD – Dylid cytuno ar opsiwn tri fel y'i nodir ym mharagraff 2.34 yr adroddiad ar gyfer Strategaeth Fuddsoddi 2021/22 fel yr opsiwn mwyaf addas ar gyfer Buddsoddiadau Deddf Eglwys Cymru.

Rheswm dros y penderfyniad

Sicrhau bod ymddiriedolwyr wedi cyflawni eu rhwymedigaethau fel Ymddiriedolwyr i adolygu Buddsoddiadau Deddf Eglwys Cymru Bro Morgannwg yn rheolaidd.

426 GLEBE FIELDS – DIWEDDARIAD (RG) –

Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi diweddariad i'r Aelodau yn dilyn penderfyniad diwethaf y Pwyllgor ym mis Mehefin 2021 a oedd i'w ystyried yn fanwl o dan Ran II o'r agenda.

Ni chafwyd unrhyw ymholiadau gan yr Aelodau

PENDERFYNWYD – Nodi'r sefyllfa a'r argymhellion sydd wedi'u diweddarau yn Rhan II o'r Agenda.

Rheswm dros y penderfyniad

Galluogi i benderfyniad gael ei wneud o dan Ran II o'r agenda.

427 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

428 GLEBE FIELDS – DIWEDDARIAD (RG) (GWYBODAETH EITHRIADOL – PARAGRAFFAU 12 A 14) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Eiddo yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd ers cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin.

Yn dilyn penderfyniadau'r Pwyllgor ym mis Mehefin, roedd y Swyddog wedi trafod y camau nesaf â Swyddog Cynllunio'r Cyngor a oedd wedi rhoi gwybod am y gofynion y byddai angen i'r safle ddangos i gael ei ystyried yn safle ymgeisiol.

Cafwyd trafodaeth wedyn, gydag Aelodau'n gofyn i'r Swyddogion am arweiniad ynghylch yr opsiynau priodol sydd ar gael i'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r mater hwn.

Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad ac arweiniad y Swyddogion,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r sefyllfa sydd wedi'i diweddarau.

(2) Cyfarwyddo'r Rheolwr Gweithredol ar gyfer Eiddo a'r Prif Gyfreithiwr i geisio cyngor gan gydweithwyr Cynllunio ynghylch yr amseru mwyaf priodol ar gyfer cynnal ymchwiliadau neu arolygon pellach ar y safle, ac yna cyflwyno adroddiad diweddarau pellach i'r Pwyllgor pan fydd y wybodaeth hon ar gael.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Sicrhau bod yr Ymddiriedolwyr yn cael eu diweddarau.
- (2) Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar yr adeg briodol a sicrhau bod yr Ymddiriedolwyr yn cael eu hysbysu'n llawn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pellach ynglŷn â'r mater hwn.